



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

---

# Adroddiad ar ymchwiliad i ymyrraeth honedig â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 118 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Cynhaliwyd yr ymchwiliad i'r ymyrraeth honedig yn unol ag adrannau 115 - 117 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Leggett & Platt Automotive, Rhydaman**

Rhif cyfeirnod yr ymchwiliad: 61

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn trwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, trwy osod safonau ar sefydliadau, ac adolygu ac ymchwilio cydymffurfiaeth â'r Mesur. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: [post@comisiynyddygybraeg.org](mailto:post@comisiynyddygybraeg.org)
- Gwefan: [comisiynyddygybraeg.org](http://comisiynyddygybraeg.org)

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT

---

# Cynnwys

1.	Cais a phenderfyniad i ymchwilio	1
2.	Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad	2
3.	Aseiad, canfyddiadau a dyfarniad	6
4.	Gweithredu pellach	9

# Rhagair

Mae Rhan 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor bod gan unigolyn ryddid i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg gydag unigolyn arall yng Nghymru. Mae'r rhagair hwn yn grynodedb o'r prif hawliau a dyletswyddau o dan Ran 6 Mesur y Gymraeg er mwyn rhoi cyd-destun cyffredinol yn unig. Nid yw'n ddatganiad cyflawn o'r gyfraith nac yn cynnwys pob agwedd o fanylder a chamau'r Rhan honno.

## Gwneud cais i'r Comisiynydd

O dan adran 111 Mesur y Gymraeg:

Caiff unigolyn (P) wneud cais i'r Comisiynydd yn gofyn i'r Comisiynydd ymchwilio i a yw person (D) wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag unigolyn arall (R) ("yr ymyrraeth honedig").

## Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

Mater i'r Comisiynydd yw penderfynu ai i ymchwilio i achos honedig o ymyrraeth ai peidio. Wrth benderfynu rhaid i'r Comisiynydd gymryd i ystyriaeth ym mha gyd-destun yr honnir bod yr ymyrraeth wedi digwydd. Caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig. Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu gwneud hynny, rhaid darparu i P a D y wybodaeth berthnasol am ymchwiliadau.

## Ymchwiliadau

Cynhelir ymchwiliad i achos honedig o ymyrraeth o dan adrannau 115-117 Mesur y Gymraeg:

115(2) Caiff y Comisiynydd ofyn i P, D, neu i unrhyw berson arall, am wybodaeth neu holi ei farn ynghylch yr ymyrraeth honedig.

Wrth gynnal ymchwiliad, rhaid i'r Comisiynydd rhoi cyfle rhesymol i D i ymateb i'r honiadau a wnaed gan P.

## Terfynu ymchwiliadau

Yn unol ag adran 116 Mesur y Gymraeg caiff y Comisiynydd derfynu ymchwiliad ar unrhyw adeg.

## Cwblhau ymchwiliadau

Os yw'r Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio i gais, ac nid i derfynu'r ymchwiliad hwnnw, rhaid i'r Comisiynydd ddyfarnu a yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad Cymraeg ai peidio. Os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â'r cyfathrebiad, rhaid i'r Comisiynydd hefyd roi ei farn ar yr ymyrraeth (gan gynnwys ei farn ynghylch cyfiawnhad yr ymyrraeth).

Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu D o'r dyfarniad y mae'n bwriadu ei gwneud a rhoi cyfle rhesymol iddo ymateb i'r dyfarniad hwnnw, cyn gwneud y dyfarniad.

Rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P a D o'r dyfarniad ac, os dyfarnir bod ymyrraeth wedi digwydd, ei farn ar yr ymyrraeth.

Caiff y Comisiynydd roi i P, D, neu i unrhyw berson arall gyngor ynghylch yr ymyrraeth neu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r ymyrraeth honedig.

## Adroddiadau

Llunnir adroddiad o dan adran 118 y Mesur ar sail canfyddiadau'r ymchwiliad.

- 118(2) Caiff y Comisiynydd lunio, a rhoi i Weinidogion Cymru, adroddiad ar –
- (a) y cais, a
  - (b) y camau a gymerwyd gan y Comisiynydd mewn ymateb i'r cais.

Rhaid i'r Comisiynydd roi copïau o unrhyw adroddiad o'r fath i P a D.

Gyda chytundeb P a D caiff y Comisiynydd gyhoeddi adroddiad neu fersiwn o'r adroddiad hwnnw neu ddogfen arall sy'n ymwneud â phwnc yr adroddiad hwnnw. Caiff y Comisiynydd hefyd gyhoeddi dogfen gyhoeddus heb gytundeb os yw o'r farn y byddai gwneud hynny er budd y cyhoedd.

Cyn cyhoeddi dogfen gyhoeddus rhaid i'r Comisiynydd hysbysu P a D o'r bwriad i wneud hynny cyn belled ag y bo'n ymarferol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i P, D neu i unrhyw berson arall y mae'r Comisiynydd o'r farn ei fod yn briodol, roi ei farn ar gyhoeddi'r ddogfen.

Yn achos unrhyw gais lle dyfarna'r Comisiynydd nad yw D wedi ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg, rhaid i ddogfen gyhoeddus beidio â'i gwneud yn hysbys pwy yw D.

# 1. Cais a phenderfyniad i ymchwilio

## Cais i ymchwilio

- 1.1 Ar 18 Rhagfyr, 2018 derbyniodd fy rhagflaenydd gais gan ddau unigolyn. Roedd y cais yn bodloni amodau adrannau 111-112 Mesur y Gymraeg ac felly'n ddilys.
- 1.2 Eglurodd y ceiswyr eu bod yn gyflogeion i gwmni Leggett & Platt Automotive ar safle'r cwmni yn Rhydaman. Roedd eu cais yn honni bod rheolwyr y safle wedi rhoi cyfarwyddyd iddynt, a chyflogeion eraill y safle, i ddefnyddio'r Saesneg yn unig yn ystod oriau gwaith.
- 1.3 Eglurodd y ceiswyr eu bod yn siaradwyr Cymraeg a bod cyfran o staff y safle hefyd yn siarad yr iaith. Er iddynt ofyn i'r cwmni am ymddiheuriad ac i dynnu'r cyfarwyddyd yn ôl, ar ddyddiad cyflwyno'r cais, nid oedd y cwmni wedi gwneud yr un o'r ddau beth hynny.

## Penderfynu ai i ymchwilio ai peidio

- 1.4 Ar 11 Ionawr, 2019 ysgrifennodd y Comisiynydd at y cwmni er mwyn cyfleu manylion y cais. Roedd y llythyr hefyd yn gwahodd y cwmni i ddarparu sylwadau ar yr ymyrraeth honedig i'w hystyried wrth benderfynu ai i ymchwilio iddo ai peidio.
- 1.5 Ymatebodd y cwmni i'r llythyr ar 21 Ionawr, 2019. Roedd yr ymateb hwnnw'n cadarnhau bod cyfarwyddwyd wedi ei roi i staff er mwyn atgyfnerthu arfer da (ym marn y cwmni) oedd eisoes wedi ei sefydlu ganddo. Cafodd y cyfarwyddyd ei roi yn dilyn dau ddigwyddiad yn y gweithle ('incidents') yn ystod mis Rhagfyr 2018.
- 1.6 Yn ôl yr ymateb, daeth rheolwyr y safle i wybod am y digwyddiadau yn ystod cyfarfodydd ffurfiol gyda aelodau staff. Yn y cyfarfodydd dywedodd aelodau eu bod yn teimlo wedi eu cau allan gan y digwyddiadau gan i'r unigolion cyfrifol ddefnyddio ieithoedd nad oeddent yn eu deall. Yn achos yr ail ddigwyddiad, crybwyllodd aelodau gallai'r defnydd o iaith arall, fel rhan o'r digwyddiad, olygu o bosib nad oedd modd ymchwilio i gwynion am y digwyddiad mewn modd teg. Roedd hynny oherwydd y gallai'r defnydd o iaith arall olygu nad oedd modd defnyddio tystiolaeth o'r digwyddiad i gefnogi ymchwiliad.
- 1.7 Nododd yr ymateb bod gweithlu'r safle yn amlddiwylliannol gyda 35% yn dod o wahanol wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd. Esboniodd bod cyflogeion yn rhydd i ddefnyddio ieithoedd o'u dewis yn ystod amser personol yn y gwaith.
- 1.8 Dywedodd mai nod y cyfarwyddyd i ddefnyddio'r Saesneg fel iaith ddymunol y busnes oedd sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu yn deall cyfathrebiadau ar y safle. Nododd mai iechyd a diogelwch oedd blaenoriaeth fwyaf y cwmni a'i fod yn anelu at gael diwylliant cynhwysol, un tîm, a chael gwared ag unrhyw rwystrau i ddiwylliant o'r fath.
- 1.9 Roedd tîm arweinyddiaeth y cwmni o'r farn bod y cyfarwyddyd yn un rhesymol gan fod pob aelod o weithlu'r safle yn deall Saesneg. Nid oedd o'r farn bod y cyfarwyddyd yn golygu bod y Gymraeg, nag unrhyw iaith arall, yn cael ei thin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 1.10 Ar sail y cais ac ymateb y cwmni, ac ar ôl ystyried y materion penodol o dan adran 114 Mesur y Gymraeg, penderfynodd y Comisiynydd ymchwilio i'r ymyrraeth honedig yn ystod cyfarfod o'r Panel Ymchwilio a Gorfodi ar 7 Chwefror, 2019.
- 1.11 Darparwyd gopi o'r weithdrefn ar gyfer cynnal yr ymchwiliad i'r ceiswyr ac i'r cwmni ar 8 Chwefror, 2019.

## 2. Y dystiolaeth a gymerwyd yn ystod yr ymchwiliad

### Galw am wybodaeth a barn

2.1 Ar 1 Mawrth, 2019 anfonodd y Comisiynydd llythyr at y ceiswyr a'r cwmni yn gofyn cyfres o gwestiynau at ddibenion yr ymchwiliad. Roedd y llythyr hefyd yn galw arnynt i ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol yr oeddent yn ei hystyried yn berthnasol i'r ymchwiliad.

2.2 Roedd y cwestiynau a ofynnwyd i'r ceiswyr fel a ganlyn:

1. Ydi'r wybodaeth yn y cais i ymchwilio yn ffeithiol gywir?
2. Oes gennych unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach yr hoffech ei chyflwyno er mwyn ei hystyried fel rhan o'r ymchwiliad?

2.3 Roedd y cwestiynau a ofynnwyd i'r cwmni fel a ganlyn:

1. Ydych chi'n derbyn honiad y ceiswyr bod cyfarwyddwyr wedi ei roi i weithwyr ar safle Pullmaflex, Rhydaman i ddefnyddio'r Saesneg yn unig yn ystod oriau gwaith?
2. Os yw honiad yr ymgeiswyr yn gywir, darparwch gopi o'r cyfarwyddyd perthnasol.
3. Pryd ac i bwy y rhoddwyd y cyfarwyddyd?
4. Beth oedd eich rhesymau dros roi'r cyfarwyddyd?
5. A yw'r cyfarwyddyd yn dal i fod mewn grym?
6. Beth yw eich polisi cyffredinol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, gan gynnwys yn ystod amser personol yn y gwaith?

2.4 Mewn ymateb, cafwyd gwybodaeth gan y ceiswyr ar 10 Mawrth, 2019 a gwybodaeth gan y cwmni ar 21 Mawrth, 2019.

2.5 Ar 17 Mai, 2019 ysgrifennodd fy swyddogion at y cwmni yn gofyn am eglurhad o rai materion yn ei wybodaeth. Derbyniais ateb ganddo ar 20 Mai, 2019.

2.6 Yn unol â'r weithdrefn ar gyfer cynnal yr ymchwiliad, rhannais y wybodaeth a dderbyniais gan y cwmni gyda'r ceiswyr. Derbyniais sylwadau terfynol y ceiswyr mewn perthynas â'r ymyrraeth honedig ar 14 Mehefin, 2019.

2.7 Ystyriais yr holl wybodaeth a dderbyniais fel rhan o'r ymchwiliad.

## Gwybodaeth y ceiswyr

- 2.8 Mewn ymateb i'r ddau gwestiwn, cadarnhaodd y ceiswyr bod y wybodaeth yn eu cais gwreiddiol yn parhau i fod yn gywir. Ar 5 Rhagfyr, 2018 rhoddodd reolwyr y safle gyfarwyddyd i'r gweithlu mai Saesneg oedd iaith y busnes ac mai honno oedd yr unig iaith dylid ei defnyddio yn ystod amser gwaith.
- 2.9 Yn ôl y wybodaeth, fe wnaeth y cyfarwyddwyd achosi gofid a dicter i aelodau staff. Achosodd i rai siaradwyr Cymraeg grïo gan fod y Gymraeg wedi cael ei siarad ar y safle ers dros ddeg mlynedd ar hugain. Roedd rhai siaradwyr Pwyleg, oedd wedi defnyddio'r iaith wrth eu gwaith ers dros dair blynedd, yr un mor ofidus.
- 2.10 Dywedodd y ceiswyr eu bod yn ymwybodol bod y cwmni wedi cyfeirio at bryderon annelwig am iechyd a diogelwch fel y rheswm dro roi'r cyfarwyddyd. Serch hynny, nid oedd y ceiswyr yn ymwybodol bod pryderon o'r fath wedi cael eu codi na'u nodi yng nghofnodion cyfarfodydd diogelwch y safle oedd yn cael eu cynnal yn fisol.
- 2.11 Roedd y cwmni mewn cyfarfodydd gyda'r ceiswyr wedi cyfeirio at ddwy gŵyn nad oedd modd iddo ymchwilio iddynt na'u datrys oherwydd bod rhai o'r unigolion oedd ynghlwm â'r cwynion wedi defnyddio iaith heblaw'r Saesneg. Esboniodd y ceiswyr wrth y cwmni bod cangen Undeb y safle wedi cymryd camau i sicrhau bod pob iaith a siaredir gan yr aelodau yn cael eu cynrychioli gan y gangen. Gall swyddogion y gangen siarad Saesneg a Chymraeg ac mae swyddog cydraddoldeb y gangen yn siaradwyr Pwyleg. Gofynnodd y ceiswyr, os gall yr Undeb weithredu heb angen am reol Saesneg yn unig, pam na all y cwmni?
- 2.12 Dywedodd y ceiswyr bod aelodau'r gangen wedi sylwi ar hysbysiadau o amgylch y safle yn gwneud datganiadau am safonau mewn sawl iaith, gan adlewyrchu cymeriad traws-genedlaethol y cwmni. Dywedodd bod y Gymraeg yn absennol o'r datganiadau hyn.
- 2.13 Roedd y ceiswyr o'r farn nad oedd modd gorfodi'r cyfarwyddyd yn bennaf oherwydd bod rheolwyr rheng ganol, nifer ohonynt yn siaradwyr Cymraeg, yn ei wrthwynebu. Serch hynny, roedd rhai siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n nerfus wrth sgwrsio'n yr iaith. Am y rhesymau hyn roedd y ceiswyr o'r farn y dylid tynnu'r cyfarwyddyd yn ôl.
- 2.14 Wrth gloi, dywedodd y ceiswyr bod nifer o weithwyr asiantaeth o ddwyrain Ewrop wedi eu dechrau gweithio i'r cwmni yn ddiweddar; rhai ohonynt yn methu siarad Saesneg. Roedd yn synnu'r ceiswyr, ac eraill ar y safle, nad oedd y cwmni wedi mynd i'r afael â hynny fel rhan o'r broses recriwtio.

## Gwybodaeth y cwmni

- 2.15 Mewn ymateb i gwestiwn un, dywedodd y cwmni mai atgoffwr i sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn ac yn deall cyfathrebiadau'r safle oedd ei gyfarwyddyd i ddefnyddio'r Saesneg fel iaith ddymunol y busnes. Dywedodd mai iechyd a diogelwch oedd ei brif flaenoriaeth a'i fod am sicrhau bod diwylliant y cwmni yn un cynhwysol heb unrhyw rwystrau.
- 2.16 Yn ôl y cwmni mae aelodau yn rhydd i ddefnyddio ieithoedd o'u dewis yn ystod amser personol yn y gwaith.
- 2.17 Cafodd y cyfarwyddyd ei roi o ganlyniad i ddefnydd o ieithoedd o ddwyrain Ewrop gan aelodau o staff.



2.18 Darparodd y cwmni gopi o'r briff mewn ymateb i gwestiwn dau. O dan y pennawd 'Diwylliant', cafodd y canlynol ei nodi:

Mae Leggett & Platt yn falch o gael gweithlu diwylliannol mor amrywiol, rydym yn argyhoeddedig bod gwahanol safbwyntiau yn bwysig i sefydliad sy'n gweithredu'n effeithiol. Fe'ch atgoffwn mai Saesneg yw iaith y busnes ac mai yn ystod amser gwaith dyma'r unig iaith y dylid ei defnyddio. (Cyfieithiad yr awdur.)

2.19 Mewn ymateb i gwestiwn tri, cadarnhaodd y cwmni bod briff oedd yn ymhél â sawl pwnc wedi ei rannu a'r gweithlu ar ddechrau'r shifft fore ar 4 Rhagfyr, 2018. Roedd hyn yn unol â strategaeth gyfathrebu arferol y cwmni.

2.20 Dywedodd y cwmni bod y tîm arweinyddiaeth wedi ail-gyflwyno'r briff i'r gweithlu yn ystod cyfarfod chwarterol ar y safle ar 20 Rhagfyr, 2018 gan ail-esbonio'r rheswm dros roi'r cyfarwyddyd.

2.21 Eglurodd y cwmni ei fod wedi trafod y mater mewn grwpiau ffocws yn y cyfnod ers rhoi'r cyfarwyddyd yn wreiddiol; ni dderbyniodd unrhyw gwestiynau nac adborth pellach gan aelodau staff.

2.22 Mewn ymateb i gwestiwn pedwar, dywedodd y cwmni mai atgyfnerthiad o'i arfer gorau oedd y cyfarwyddyd. Cafodd ei roi yn dilyn dau ddigwyddiad ym mis Rhagfyr 2018 oherwydd bod aelodau staff wedi mynegi wrth reolwyr eu bod yn teimlo wedi eu cau allan gan y digwyddiadau. Yn achos yr ail ddigwyddiad, crybwyllodd aelodau gallai'r defnydd o iaith arall, fal rhan o'r digwyddiad, olygu o bosib nad oedd modd ymchwilio i gwynion am y digwyddiad mewn modd teg. Roedd hynny oherwydd y gallai'r defnydd o iaith arall olygu nad oedd modd defnyddio tystiolaeth o'r digwyddiad i gefnogi ymchwiliad.

2.23 Nododd bod gweithlu'r safle yn amlddiwylliannol gyda 35% o gyflogeion yn dod o wahanol wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd.

2.24 Mewn ymateb i gwestiwn pump, eglurodd y cwmni ei fod yn gofyn i'w holl gyflogeion ddefnyddio'r Saesneg fel iaith ddymunol y busnes yn ystod amser gwaith. Mae'n derbyn ei bod yn well gan gyflogeion sy'n siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith honno wrth eu gwaith ond mae'n gofyn iddynt ystyried defnyddio'r Saesneg yng nghwmni cyd-weithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg er mwyn osgoi cau allan y cyd-weithwyr hynny.

2.25 Yn ôl y cwmni mae gan bob cyflogai'r cyfle i ddefnyddio ei ddewis iaith yn ystod amser personol yn y gwaith.

2.26 Mewn ymateb i gwestiwn chwech, dywedodd y cwmni bod Leggett & Platt Automotive yn croesawu pob diwylliant ac iaith o fewn ei safleoedd byd-eang. Gall pob cyflogai ddefnyddio ei ddewis iaith yn ystod amser personol yn y gwaith, gan gynnwys y Gymraeg.

### **Gwybodaeth ychwanegol gan y cwmni**

2.27 Yn dilyn cais gan fy swyddogion, cadarnhaodd y cwmni bod sylwadau wedi ei gwneud gan unigolion yn ystod y digwyddiadau ym mis Rhagfyr 2018 mewn ieithoedd nad oedd pawb yn eu deall. O ganlyniad nid oedd modd defnyddio'r sylwadau hynny fel tystiolaeth fel rhan o ymchwiliad ('grievance investigation') gan y cwmni.

2.28 Roedd un o'r digwyddiadau yn ymwneud â sylwadau yn Gymraeg a'r llall am sylwadau yn yr iaith Bwyleg.

### **Sylwadau terfynol y ceiswyr**

- 2.29 Dywedodd y ceiswyr bod y cyfarwyddyd yn parhau i fod mewn grym ar 14 Mehefin, 2019. Fel y nododd y cwmni yn ei dystiolaeth i mi, y brîff tîm yw'r prif ddull o gyfathrebu a ffefrir ganddo; nid oedd unrhyw ffriff, nac unrhyw wybodaeth arall, wedi ei rannu gan y cwmni yn tynnu'r cyfarwyddyd yn ôl.
- 2.30 Nid oedd y ceiswyr yn synnu nad oedd y cwmni wedi derbyn unrhyw adborth gan aelodau o staff ar y mater gan fod y cwmni'n ymwybodol bod y mater wedi ei gyfeirio at fy swyddfa.
- 2.31 Dywedodd y ceiswyr bod rheolwyr adnoddau dynol y safe wedi esbonio wrth stiwardiaid mewn dau wahanol gyfarfod mai mewn ymateb i gwynion am ddefnydd o'r iaith Bwyleg y cafodd y cyfarwyddyd i ddefnyddio'r Saesneg ei roi. (Darparwyd manylion y cyfarfodydd.) Roeddent o'r farn bod y wybodaeth a ddarparwyd gan y cwmni at ddibenion yr ymchwiliad yn gwrth-ddweud hyn gan awgrymu bod y cyfarwyddyd wedi ei roi o ganlyniad i ddefnyddio'r Gymraeg, yn ogystal â Phwyleg.
- 2.32 Roedd y ceiswyr yn gobeithio y gallai'r mater gael ei ddatrys. Yn ôl eu gwybodaeth, mae'r iaith Gymraeg wedi ei siarad yn agored ar y safle ers degawdau a hyd nes Rhagfyr, 2018 ni fi unrhyw reolwr o'r farn bod lle i ymyrryd â hynny.

## 3. Asesiad, canfyddiadau a dyfarniad

### Ystyried yr ymyrraeth honedig

- 3.1 Mae'n glir o'r dystiolaeth bod cyfarwyddyd wedi ei roi i aelodau staff y safle i ddefnyddio'r Saesneg yn unig yn ystod amser gwaith. Mae'r cyfarwyddyd hwn yn gyson â'r enghraifft gyntaf o ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg sy'n cael ei grybwyll gan adran 113 Mesur y Gymraeg:
- (2) Achos 1 yw pan fo D yn mynegi na ddylai P neu R ymgymryd—
- (a) â chyfathrebiad penodol yn Gymraeg sy'n gyfathrebiad Cymraeg, neu
  - (b) â chategori o gyfathrebiadau Cymraeg sydd (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) yn un neu ragor o gyfathrebiadau Cymraeg.<sup>1</sup>
- 3.2 Cafodd y cyfarwyddyd ei roi gan arweinyddiaeth y cwmni a'i gyfleu i aelodau staff y safle gan reolwyr rheng ganol mewn briff ar 4 Rhagfyr, 2018.
- 3.3 Penderfynodd y cwmni roi'r cyfarwyddyd yn dilyn dau ddigwyddiad ym mis Rhagfyr 2018 a fu'n sail i ymchwiliadau ffurfiol. Yn ystod y digwyddiadau hynny cafodd sylwadau eu gwneud mewn ieithoedd nad oedd pawb yn eu deall. O ganlyniad, nid oedd modd eu defnyddio fel dystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliadau.
- 3.4 Eglurodd y cwmni bod iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth ganddo. Roedd am sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu yn derbyn ac yn deall unrhyw gyfathrebiadau'n ymwneud â'r gwaith er mwyn diogelu ei gyflogeion. Gan fod pob aelod o'r gweithlu'n deall Saesneg, roedd o'r farn ei bod yn rhesymol gofyn i'w gyflogeion ddefnyddio'r Saesneg yn unig yn ystod amser gwaith. Roedd yn rhydd i aelodau staff ddefnyddio eu dewis ieithoedd yn ystod amser personol.
- 3.5 Dywedodd y cwmni bod defnyddio ieithoedd nad ydynt yn gyffredin i bob aelod o staff yn groes i ddiwylliant cynhwysol y cwmni. Gofynnodd i siaradwyr Cymraeg osgoi defnyddio'r iaith yng nghwmni cyd-weithwyr nad ydynt yn ei siarad er mwyn osgoi cau allan yr unigolion hynny.
- 3.6 Mae'r cyfarwyddyd i ddefnyddio'r Saesneg yn unig yn parhau mewn lle ar y safle.

### Dyfarniad ar yr ymyrraeth honedig

- 3.7 Dyfarnaf fod Leggett & Platt Automotive wedi ymyrryd â rhyddid y ceiswyr i ddefnyddio'r Gymraeg. Rhoddodd iddynt gyfarwyddyd i ddefnyddio'r Saesneg yn unig yn ystod amser gwaith ar safle Pullmaflex yn Rhydaman. Trwy wneud hynny mynegodd y cwmni na ddylai siaradwyr Cymraeg ymgymryd â chyfathrebiadau Cymraeg gyda'i gilydd.

### Barn ar yr ymyrraeth

- 3.8 Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod nifer o aelodau gweithlu'r safle yn siaradwyr Cymraeg, mae'n naturiol felly bod yr unigolion hyn am ddefnyddio'r iaith wrth gyfathrebu gyda'i gilydd wrth eu gwaith. Cafodd y cyfarwyddyd i ddefnyddio'r Saesneg ei roi gan arweinyddiaeth y cwmni a'i gyfleu i staff gan reolwyr rheng ganol. Er i'r cwmni ddisgrifio'r Saesneg fel 'iaith ddymunol y busnes' mae'r cyfarwyddyd yn darllen fel gwaharddiad rhag defnyddio unrhyw

<sup>1</sup> Ystyr 'cyfathrebiad Cymraeg' yw cyfathrebiad yn Gymraeg rhwng dau unigolyn yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.

iaith arall. Mae'n ddealladwy felly bod aelodau o staff yn teimlo'n ddig ac yn nerfus o ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyd-weithwyr.

- 3.9 Er i'r cwmni honni mai atgyfnerthu 'arfer orau' oedd eisoes wedi ei sefydlu oedd bwriad y cyfarwyddyd, mae'n ymddangos o'r dystiolaeth nad oedd aelodau staff yn ymwybodol bod unrhyw ddisgwyliad arnynt i ddefnyddio'r Saesneg yn unig wrth eu gwaith hyd nes i'r briff gael ei rannu ar 4 Rhagfyr, 2018.
- 3.10 Ni dderbyniais dystiolaeth gan y cwmni wnaeth fy argyhoeddi bod cyfiawnhad dros roi'r cyfarwyddyd ar y sail bod defnyddio'r Gymraeg ar y safle yn peryglu iechyd a diogelwch aelodau'r gweithlu wrth iddynt ymgymryd â'u gwaith.
- 3.11 Mae'n ymddangos i mi mai hwyluso ymchwiliadau ffurfiol oedd y gwir reswm dros roi'r cyfarwyddyd. Roedd y cwmni am osgoi sefyllfa arall ble nad oedd modd defnyddio tystiolaeth o sylwadau mewn iaith arall fel rhan o ymchwiliad i ddigwyddiad yn y gwaith. Dyma wir amcan y cwmni yn hytrach nag unrhyw bryder am iechyd a diogelwch a chau allan aelodau o staff o sgysiau am waith nad oeddent yn eu deall.
- 3.12 Nid wyf o'r farn bod pryder am fethu â defnyddio tystiolaeth fel rhan o ymchwiliad ffurfiol yn cyfiawnhau gosod gwaharddiad cyffredinol ar ddefnyddio'r Gymraeg. Cadarnhaodd y ceiswyr bod camau wedi eu cymryd i sicrhau bod y Gymraeg, a phob iaith a siaredir gan aelodau'r gweithlu, yn cael eu cynrychioli gan gangen Undeb y safle.
- 3.13 Yn wahanol i'r hyn o honnwyd gan y cwmni, nid wyf o'r farn bod gosod gwaharddiad ar ddefnyddio'r Gymraeg yn gydnaws â chreu diwylliant gynhwysol. Yn wir, dangosodd yr ymchwiliad bod cyfarwyddyd y cwmni wedi creu'r effaith groes o ddieithrio siaradwyr Cymraeg.
- 3.14 Ar fwy nac un achlysur yn ei dystiolaeth fe gyfeiriodd y cwmni at y Gymraeg mewn termau digon negyddol. Dywedodd bod defnyddio'r iaith yn cau allan unigolion ac yn rhwystro i'r diwylliant gynhwysol roedd mor awyddus i'w greu. Yn ddadlennol, disgrifiodd y Saesneg fel 'iaith ddymunol' y busnes a bod defnyddio'r iaith honno'n unig yn 'arfer dda'.
- 3.15 Mae siomedig na all cwmni rhyngwladol yn yr unfed ganrif ar hugain weld rhinweddau gweithlu amrywiol ei hiaith lle caiff yr iaith Gymraeg ei defnyddio yn gwbl naturiol. Er mwyn creu gwir ddiwylliant gynhwysol mae'n hanfodol, yn fy marn i, bod gan gwmni weledigaeth sy'n croesawu, ac wir yn dathlu, amrywiaeth ieithyddol ei gyflogeion.
- 3.16 I'r gwrthwyneb, mae'r cwmni hwn wedi mynnu unffurfiaeth gan ei staff sydd nid yn unig yn anghyfreithlon yn ôl Mesur y Gymraeg, ond hefyd yn dangos agwedd gyntefig a chul tuag at yr iaith Gymraeg.
- 3.17 Cafodd Mesur y Gymraeg ei phasio gan y Cynulliad yn 2011. Un o amcanion pwysicaf y darn hwn o ddeddfwriaeth oedd rhoi statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru. Rhoddwyd effaith gyfreithiol i'r statws hwnnw drwy sefydlu bod gan unigolion yng Nghymru ryddid i ddefnyddio'r iaith gyda'i gilydd, a chaniatáu i mi gynnal ymchwiliadau o'r natur hwn.
- 3.18 Arweiniodd y Mesur hefyd at greu safonau ymddygiad ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg wrth gynnal eu busnes. Mae'r safonau hynny'n ymhél â, ymysg pethau eraill, delio hefo cwynion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn modd priodol a theg, a hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- 3.19 Mae'n glir felly bod y Cynulliad, wrth basio Mesur y Gymraeg, am weld cymdeithas lle gall unigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn ddi-rwystro yn eu bywyd personol ac wrth eu gwaith. Fel

cwmni sy'n cynnal ei fusnes yng Nghymru, dylai Legget & Platt Automotive fod yn ystyriol o'r weledigaeth hon ar gyfer y wlad.

## 4. Gweithredu pellach

- 4.1 Mae adran 117(7) Mesur y Gymraeg yn caniatáu i mi roi cyngor i unrhyw berson ynghylch yr ymyrraeth.
- 4.2 Yna achos fy nyfarniad bod Leggett & Platt Automotive wedi ymyrryd â rhyddid ei gyflogeion i ddefnyddio'r Gymraeg rwyf yn rhoi iddo'r cyngor canlynol:

### **Cyngor 1**

Dylai Leggett & Platt Automotive dynnu'r cyfarwyddyd i ddefnyddio'r Saesneg yn unig yn ôl ac ymddiheuro i'r cyflogeion a effeithiwyd.

### **Cyngor 2**

Dylai'r cwmni, fel un sy'n cynnal ei fusnes yng Nghymru, gydnabod yn llawn statws swyddogol y Gymraeg.

### **Cyngor 3**

Dylai'r cwmni ddatgan mewn dogfen bolisi na fydd yn ymyrryd â rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg.